**Yr Arglwydd Elis-Thomas AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth**
**Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-1037
Ein cyf/Our ref DET/03266/20

Janet Finch-Saunders AS
Cadeirydd, y Pwyllgor
Deisebau

9 Rhagfyr 2020

Annwyl Janet,

Diolch am eich ymateb ynglŷn â'r ddeiseb ar ganiatáu i blant fynd i mewn i ardaloedd sydd o dan gyfyngiadau symud i barhau â'u hyfforddiant, ac am yr adborth gan y Pwyllgor.

Fel y byddwch yn gwybod, ar hyn o bryd nid oes unrhyw gyfyngiadau ar deithio yng Nghymru. Fodd bynnag, rydym yn gofyn i bawb feddwl yn ofalus am y teithiau maent yn ymgymryd â nhw, a'r bobl maent yn cwrdd â nhw. Mewn perthynas â'ch cwestiwn penodol am gyfyngiadau symud yn y dyfodol, ni allaf roi ateb pendant ichi am y rheswm syml nad ydym yn gwybod beth fydd y sefyllfa. Fodd bynnag, gallaf roi sicrwydd ichi y byddwn yn parhau i wneud popeth yn ein gallu i sicrhau y gall pawb ailddechrau chwaraeon yn raddol, gan gynnwys plant.

Bydd penderfyniadau yn y dyfodol yn seiliedig ar y data a'r wyddoniaeth sydd ar gael ar y pryd. Os ydym i gyd yn dilyn y canllawiau presennol mae'n bosibl na fydd angen cyfnod atal byr arall. Rydym yn parhau i fonitro adborth gan y cyhoedd, a lle bo modd, rydym yn ystyried y safbwyntiau hyn wrth wneud penderfyniadau.

Yn gywir,

**Yr Arglwydd Elis-Thomas AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth
Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Dafydd.Elis-Thomas@llyw.cymru
Correspondence.Dafydd.Elis-Thomas@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.